Dŵr

Cysyniadau: **Dyfalbarhad, gofal, meddwl am eraill, rhannu.**

Amcan: **Dangos pa mor bwysig ydi dŵr yn ein bywydau.**

Cyfarpar: **Sŵn dŵr, gwydraid o ddŵr.**

Cyflwyniad:

● Os gwn i beth oedd y sŵn yna? Rhoi cyfle i'r plant ateb.

● Ydych chi rywdro wedi gwneud trefniadau efo'ch ffrindiau i fynd am dro, i fynd allan i chwarae neu i fynd i lan y môr ac mae hi wedi dechrau bwrw glaw? Oeddech chi'n teimlo'n flin?

● Nid chi'r plant yn unig sy'n cwyno am y glaw ond mae oedolion hefyd. Mae Dad eisiau mynd i'r ardd ond mae hi'n bwrw a Mam eisiau glanhau'r car ac mae hi'n pistyllio.

● Ydych chi'n meddwl y byddai hi'n well petai hi ddim yn bwrw o gwbl? Dim ond haul a thywydd braf drwy'r amser?

● Cyfle i'r plant ymateb. Sut byddai arnom ni wedyn?

● Dim dŵr i'w yfed na dŵr i ymolchi, na chael cawod a glanhau'n dannedd. Byddai'r coed, y blodau a'r glaswellt yn marw. Dim cnydau. Dim afonydd a llynnoedd, dim môr. Mi fyddai'r byd i gyd yn anialwch heb ddim bywyd o gwbl. Fyddai dim bywyd ar y ddaear.

Trafodaeth bellach:
Y blaned las ydi'r Ddaear. Mae 70% o'r blaned wedi'i gorchuddio â dŵr. Rydyn ni angen yfed dŵr bob dydd. Mae'n rhaid cofio mai dŵr ydi te efo bag te ynddo a choffi efo llwyaid o ronynnau coffi ynddo.
Wyddoch chi ein bod ni'n defnyddio oddeutu 20-30 litr o ddŵr i olchi llestri, oddeutu 80 litr i gael bath ac o gwmpas 35-40 litr i gael cawod? Toiled – 7 litr. Golchi car (dibynnu ar ei faint) – oddeutu 100 litr.

● Sut y medrwn ni arbed dŵr?
Cofio ein bod yn cau'r tap yn dynn. Peidio gadael iddo ddripian.
Cawod yn lle bath a pheidio aros dan y gawod yn rhy hir.
Cau'r tap wrth lanhau ein dannedd.
Cael casgen ddŵr yn yr ardd i gadw'r dŵr sy'n disgyn oddi ar y to.
Cael mesurydd dŵr yn y tŷ i gadw golwg ar faint o ddŵr a ddefnyddir.

● Ydych chi wedi meddwl o ble mae'r dŵr yn dod i'r ysgol? O ba lyn neu argae?

Stori:

Deg oed ydi Hindiya ac mae hi bob amser yn gwenu ar bawb. Mae hi ar daith efo'i thad a'i brawd a'i chwaer a rhai o'i theulu estynedig. Ac wrth gwrs mae gyr o eifr yn eu dilyn. Mae'r sychder mawr wedi golygu bod yn rhaid i'r teulu wahanu. Mae mam Hindiya a gweddill y teulu wedi ffoi i Somalia i chwilio am ddŵr a bwyd i'r teulu a'r anifeiliaid. Mae Hindiya a'i thad wedi mynd i gyfeiriad arall i chwilio am ddŵr a bwyd. Yn y rhan yma o Affrica dydi hi ddim wedi bwrw glaw ers tair blynedd. Weithiau maen nhw'n cerdded am bymtheg diwrnod heb stopio o gwbl, dim ond am ychydig oriau i gysgu. Mae hi'n daith hir i chwilio am ddŵr. O dro i dro bydd y rhai maen nhw'n gyfarfod ar y ffordd yn dweud bod dŵr ffynnon i'w gael ychydig o gilometrau i ffwrdd. Ond ar ôl iddyn nhw gyrraedd mae'r ffynnon wedi sychu – dim diferyn o ddŵr yn unman.

Mae Hindiya druan yn denau ac yn sychedig. Am ba hyd y gall hi fynd ar y daith?

Trafodaeth bellach:

● Ydi'r digwyddiad hwn yn ein gwneud ni'n anghyffyrddus? Pam?

● Oes yna rywbeth fedrwn ni ei wneud i helpu pobl a phlant tebyg i Hindiya?

● Mae sawl gwefan yn gofyn am gymorth. Rwy'n siŵr y gallwch gysylltu â Chymorth Cristnogol neu wefan ddyngarol arall i gael gwybodaeth bellach.

Emyn: O diolch Dduw i Ti: Clap a Chân i Dduw 2

Munud i feddwl:

Dim dŵr, dim bywyd.

Dyfyniad o'r Beibl:

Dywedodd Iesu Grist:

"Oherwydd pwy bynnag a rydd gwpanaid o ddŵr i chwi i'w yfed o achos eich bod yn perthyn i'r Meseia, yn wir, rwy'n dweud wrthych, ni chyll ei wobr." Marc 9:41 BCND

Myfyrdod/Gweddi:

Diolch i ti, O Dduw, am anfon glaw ar y ddaear. Cofiwn heddiw am y rhai fel Hindiya sydd heb ddŵr. Helpa ni i'w helpu nhw. Diolch. Amen.